*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **19 Mawrth 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddogion Cyswllt | **Sandra Forrest/Julie Brown** |
| Pwnc | **Alldro Amcanol 2017-2018** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi alldro amcanol wedi'i amcangyfrif am flwyddyn ariannol 2017-2018 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ôl yr arwyddion cyfredol, ni fydd unrhyw danwariant a bydd angen £215,385 o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb ar gyfer 2017-2018. Mae hyn yn cynnwys diwygio'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a gymeradwywyd gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd y byddai angen £414,223 o gronfeydd wrth gefn i osod cyllideb fantoledig. Mae'r dadansoddiad manwl wedi'i gynnwys yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

**CEFNDIR**

4 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant a'r incwm gwirioneddol hyd at ddiwedd mis Chwefror, ac amcangyfrif o'r gwariant a'r incwm hyd at Fawrth 2018.

5 Mae rhai grantiau a ddyfarnwyd yn y flwyddyn wedi'u rhestru yn yr adroddiad ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigyrau yn Atodiad A.

**GWYBODAETH**

**Amrywiadau i'r Gyllideb**

**Costau Gweithwyr**

6 Yn gyffredinol, disgwylir y bydd y gwariant ar gyflogau £455k yn fwy na'r gyllideb a osodwyd.

7 Yn ôl yr amcangyfrif cyfredol, bydd gorwariant ar y gyllideb ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd mai 1% fyddai'r dyfarniad cyflog. Yn ôl yr arwyddion cyfredol, bydd y dyfarniad cyflog yn uwch felly mae hyn wedi'i gynnwys yn y sefyllfa alldro gydag amcangyfrif diwygiedig o 2% o godiad. Y gorwariant a amcangyfrifir fydd £122k.

8 Mae'r costau ychwanegol ar gyfer diffoddwyr tân y system RDS yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith fod staff newydd ymuno â'r Gwasanaeth yn dilyn yr ymgyrch recriwtio newydd. Gosodwyd y gyllideb ar sail 390 o staff ond erbyn hyn mae hynny wedi codi i fwy na 440, gan effeithio ar y costau. Bu angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod digon o ofal tân ar gael ledled Gogledd Cymru drwy gynyddu lefel argaeledd gorsafoedd RDS i ymateb i alwadau.

9 O ran staff cefnogol, mae'r costau ychwanegol ar gyfer y Tîm Cymorth Cymunedol newydd wedi'u cynnwys yn y ffigwr alldro. Mae rhai o'r costau wedi'u talu gan gyfraniad gan Lywodraeth Cymru ac incwm gan awdurdod lleol sy'n derbyn ei wasanaethau. Fodd bynnag, mae unrhyw gostau ychwanegol eraill, nad ydynt yn cael eu talu gan yr incwm, yn cael eu gwrthbwyso gan nifer o swyddi gwag ymysg staff cefnogol ac arbedion ar y taliad lwmp-swm i'r cynllun pensiwn llywodraeth leol.

10 Disgwylir y bydd costau hyfforddiant yn uwch na'r gyllideb oherwydd bod nifer o recriwtiaid newydd ar y system RDS a bod swyddi prentisiaid wedi cael eu llenwi. Fodd bynnag, mae'r swyddogion wedi cael rhywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at gost hyfforddi prentisiaid.

11 Disgwylir i'r costau pensiwn fod yn uwch na'r gyllideb oherwydd y cyfraniadau refeniw i'r gronfa bensiynau ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd. Os oes diffyg cyffredinol yn y gyllideb, gellir ymorol am hynny o'r gronfa a glustnodwyd ar gyfer y taliadau ychwanegol hyn.

**Safleoedd**

12 Yn gyffredinol, bydd £146k o orwariant ar y gyllideb safleoedd. Mae'r amrywiadau sylweddol i'w cael ar y gyllideb ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd bod angen i nifer o gynlluniau a

amcangyfrifwyd fel rhan o'r rhaglen gyfalaf gael eu categoreiddio felg gwariant refeniw oherwydd y math o ydynt. Erbyn hyn, mae'r gyllideb ar gyfer ardrethi yn cynnwys costau blwyddyn lawn Gorsaf Dân newydd Wrecsam, - costau a oedd yn anhysbys pan osodwyd y gyllideb.

**Cludiant**

13 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd tanwariant o £181k ar y gyllideb cludiant. Yn ôl yr arwyddion cyfredol, bydd costau tanwydd a threuliau teithio yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y gostyngiad ym mhrisiau tanwydd a'r lefelau gweithgarwch cyfredol. Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo hefyd i negodi gostyngiad yn yr yswiriant ar gyfer cerbydau modur, ac mae hyn wedi'i gynnwys dan y pennawd 'treuliau rhedeg'. Mae hyn wedi cyfrannu dros £85k at y tanwariant.

**Cyflenwadau**

14 Mae'r gorwariant ar wisgoedd a golchi yn gysylltiedig â'r cynnydd yng nghostau'r contract ar gyfer rheoli cyfarpar amddiffyn personol a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu gwisgoedd a chyfarpar i staff newydd yn dilyn yr ymgyrch recriwtio.

15 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd gorwariant ar gostau cyfrifiadurol. Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio. Bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r prosiect a'r risgiau dan sylw. Yn 2015-16, neilltuwyd £300k i dalu rhai o gostau ychwanegol y cyfnod trosglwyddo ond ar yr adeg hon o'r flwyddyn bydd y costau ychwanegol yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan yr arbedion ar y gyllideb gysylltiadau ac arbedion mewn rhannau eraill o'r gyllideb. Os bydd diffyg cyffredinol yn y gyllideb, gellir talu am hynny o'r gronfa a glustnodwyd i ymorol am y prosiect.

16 Bydd tanwariant ar y gyllideb gysylltiadau oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys gostyngiad yng nghost rhenti ffôn a costau ffonau symudol oherwydd newidiadau yn nhrefniadau'r contractau. Disgwylir hefyd na fydd y gyllideb ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw caledwedd cysylltiadau wedi cael ei defnyddio i gyd.

17 Mae ail-negodi'r contract yswiriant hefyd wedi arwain at arbedion yn yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, gan gyfrannu £26k at y tanwariant.

**Ariannu Cyfalaf**

18 Mae'r costau ar y gyllideb refeniw am ariannu'r rhaglen gyfalaf yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer oherwydd bod rhai prosiectau wedi cael eu cario drosodd o 2016-17 i 2017-18. Mae'r gwariant is yn 2016-17 wedi golygu hefyd y bu llai o ddyled i'w thalu. Bydd cymeradwyo'r newid yn y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yn arwain at arbedion ychwanegol, sef £366k ar y costau ariannu cyfalaf yn 2017/18, yn ogystal â darparu costau is ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

**INCWM**

19 Ar y cyfan, amcangyfrifir y bydd yr incwm yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Mae pennawd cyfraniadau Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllid ychwanegol y llwyddodd y swyddogion i'w gael tuag at hyfforddi prentisiaid ac at y Tîm Cymorth Cymunedol. Roedd y gyllideb wreiddiol, sef £25k, ar gyfer cynllunio rhag argyfyngau, ac erbyn hyn dangosir hynny fel rhan o'r grant cydnerthedd cenedlaethol.

20 Mae'r incwm ychwanegol o werthiant wedi digwydd drwy gael gwared ar gerbydau a chyfarpar wrth gael rhai newydd neu wrth gael gwared ar rai nad oes mo'u hangen mwyach.

21 Mae'r pennawd 'amrywiol' ar y gyllideb yn cynnwys incwm ar gyfer secondiad i Gyfoeth Naturiol Cymru, sef rhywbeth nad oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb wreiddiol.

22 Mae'r pennawd 'ffioedd proffesiynol' ar y gyllideb yn cyfeirio at incwm newydd yn y flwyddyn. Yr incwm a ddaeth yw incwm ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a ddarperir i brosiect Wylfa a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Cymorth Cymunedol.

23 Mae incwm o ffioedd cyfalaf wedi gostwng yn unol â'r gwariant a fu ar y rhaglen gyfalaf ac o ganlyniad i ad-drefnu'r gyllideb gyfalaf.

**INCWM GRANT**

24 Dyma'r grantiau a ddyfarnwyd hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon:-

Firelink - £415,600 (wedi'i gynnwys yn y ffigyrau alldro)
Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol - £156,464
Ymyriadau - £223,300
Cymru Gydnerth - £2,000,000
Ymateb i Lifogydd ac Achub o Ddŵr Cydnerthedd Cenedlaethol - £1,000,000
Y Ffenics - £165,000
Fforwm Lleol Cymru Gydnerth - £53,142

25 Bydd unrhyw wariant ychwanegol a fu ar yr Awdurdod er mwyn cwrdd â thelerau'r grant yn cael ei dalu gan yr incwm grant. Ni ddangosir y gwariant yn natganiad alldro'r gyllideb.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae cyllid ar gyfer y gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru, ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y seilwaith er mwyn darparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, gan gynnwys gwaith ymatebol brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb fantoledig yn ôl y gyfraith, ac adroddir i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu os oes unrhyw achosion o wyro oddi wrth hynny. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Os bydd y gofynion ar y gwasanaeth yn uchel dros gyfnod hir, efallai y bydd angen cyllid ychwanegol er mwyn cynnal y gwasanaethau. |